Cyngor Cymdeithas Cynwyd

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fawrth, 6ed o Fedi, 2016, yn y Neuadd Bentref am 7.30 yr hwyr.

Presennol

Cefyn Williams, Ifan Williams, John Evans, Gwen Wynne, Emrys Bodden.

Ymddiheuriadau

Aelwyn Guest, Nan Jones, Ann Owen, Llion Jones.

Cyn ymdrin â materion y Cyngor, dymunwyd gwellhad buan i'r trigolion sy'n dioddef o anhwylder iechyd - mae nifer yn y cylch yn cwyno.

Da oedd cael cynrychiolydd o'r Heddlu (Carl Joseph 2889) yn bresennol; cafwyd trafodaeth diddorol. Siaradwyd am waith yr Heddlu yn yr ardal, nawr ac yn y dyfodol - mae'n gobeithio cael mwy o bresennoldeb yr Heddlu yn ein hardal, nid, yn unig ar amserau argyfwng.

Cofnodion y Cyngor

Darllenwyd y Cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5 Mehefin 2016 a chafwyd yn gywir. Hefyd, derbyniwyd agendas Sir Ddinbych.

Materion Ariannol

- Gadael siarad am y diffibriliwr hyd y cyfarfod nesaf.
- Gadael siarad am chyflog a chostiau'r clerc i'r cyfarfod nesaf.

Cynllunio

- Tan y Graig, Llangar – cais ôl-weithredol.

Gwybodaeth ac UFA

- Cyflwr y ffyrdd yn dal i beri gofid.
- Cais o aelod o'r cyhoedd am gymorth gyda choeden peryglus; Ifan Williams i ystried y sefyllfa.
- Daeth Mr Jim Hall o'r Cyngor Sir i siarad am gyflwr pontydd yng Nghynwyd. Mae angen cyfyngiad pwysau ar y bont yng nghanol y pentref. Dywedodd for rhaid cadw golwg ar y bont dros y Dyfrdwy.
- Ni ddylai hysbysiad yn y bwrdd hysbysiad fod yn ddi enw a heb ffordd i gysylltu, a dylai fod yn ddwyieithog.

Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth, 4ydd o Hydref, 2016